

Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth yn ein gweddiâu heddiw. Gyda thristwch y clywyd heddiw am farwolaeth Gwynedd Davies (Peniel). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i briod Nerys, a'r teulu i gyd yn eu galar a'u hiraeth am ŵr, tad, taid, hen daid, a brawd hoffus a charedig. Gweddiwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt. Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â Lowri Vaughan (Saron) a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli mam Lowri, sef Mrs Beryl Roberts. Nid dyma'r brofedigaeth gyntaf iddynt fel teulu ei gyfarfod yn ystod y misoedd diwethaf, a gweddiwn y byddant hwythau yn adnabod eto ofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu, ac y bydd nerth a chynhaliaeth Duw ei hun yn ddigon iddynt.

Cofiwn hefyd am Edwin Jones (Peniel), Selwyn Davies (Nantglyn) ac Eilir Taylor (Llansannan) sydd heb fod yn dda ac yn cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd, tra bod Iorwen Roberts (Llansannan) yn parhau i gael gofal yn yr Infirmari. Bu i Gruffydd Jones (Llansannan) a Geraint Lloyd (Peniel) hefyd dreulio peth amser yn Ysbyty Glan Clwyd ond da cael adrodd fod y ddau adref erbyn hyn. Cofiwn hefyd am eraill o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Anfonwn ein cofion cynhesaf at bob un ohonynt. Gweddiwn eu bod yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion hefyd at Richard M. Jones (Cefn Berain) sydd bellach wedi symud i Gartref Bron Afallen yng Ngherrigydrudion. Hyderwn y bydd yn setlo'n fuan ac yn elwa o'r gofal yno.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Menna Jones (Llanefydd) fydd yn dathlu penblwydd arbennig wythnos nesaf!

Coleg y Bala

- **Clwb Hydref (i blant 8-11 oed)** Hydref 31^{ain} – Tachwedd 1^{af}. (Mae'r cwrs yma'n llawn.)
- **Cwrs Ieuencid (oed uwchradd: bl.7-10)** ar 4^{ydd} – 6^{ed} o Dachwedd (penwythnos olaf hanner tymor). Cost: £66. Archebwch le erbyn dydd Mercher fan bellaf: <https://forms.gle/HhRPPeSgmyXAX5G69>
- **Arfogi** – penwythnos i annog ac arfogi myfyrwyr ac oedolion ifanc (19+) Tachwedd 18^{fed}–20^{fed}. Medrwyd archebu lle ar y wefan: colegybala.org.
- **Penwythnos Peldroed (Bl.5-9)** – Tachwedd 26^{ain}–27^{ain}. Deuddydd a noson yn llawn gemau pel-droed, twrnamantau pel-droed a gwyllo gêm pel-droed Cwpan y Byd 'Ariannin v Mexico'. Mi fydd cyfle hefyd i chwarae pel-droed ar 3G Bala Town ac yn y ganolfan hamdden, ac amser i ddefnyddio'r ystafelloedd 'gaming' a chwaraeon, yn ogystal â noson *takeaway*! Mae'r gost o £40 (£20 i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu) yn cynnwys popeth! Archebwch le heddiw: https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSfypIWTikUDEzgWrCK3ZOGYI_2xJ-NLe_-irmQ6yp5OBfeRIA/viewform

(Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn Tachwedd 9^{fed}, os gwelwch yn dda.)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 30 Hydref 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Rydym yn gwybod erbyn hyn pwy yw'r trydydd person mewn blwyddyn i symud i mewn i Rif 10 Stryd Downing! Yn dilyn ymddiswyddiad Boris Johnson ar 7 Gorffennaf, a 50 diwrnod hynod Liz Truss wrth y llyw, Rishi Sunak yw'r Prif Weinidog diweddaraf yn Llundain. Mae'n ddigon posib eich bod wedi cael llond bol ar yr holl syrcau wleidyddol, ond mae'r misoedd diwethaf wedi dysgu rhai gwersi pwysig i ni. Yn ôl y sôn, pan ofynnwyd i un Prif Weinidog yn yr 20fed ganrif beth oedd yr her fwyaf i lywodraeth, ei ateb cofiadwy oedd, "Events, my dear boy, events." A gallwn ddweud rhywbeth tebyg am ein bywydau ninnau hefyd. Er cymaint yr ymdrechwn i roi trefn ar bethau a gwneud penderfyniadau doeth, rhaid i ni gydnabod nad ydym mewn rheolaeth lwyr o'n bywydau. Wedi cyfnodau hir heb ryw lawer yn digwydd, mewn byd syrthiedig gallwn ninnau wynebu cyfnodau dryslyd o newidiadau poenus, ac argyfyngau nad oeddem yn barod amdanynt. Dyma pam y mae'r disgrifiad ohonom fel glaswellt neu flodeuyn y maes mor addas yn Eiseia 40:6-7.

Wrth i ansicrwydd gwleidyddol ledaenu dros y ddeufis diwethaf, cynyddodd y galwadau croch am lywodraeth synhwyrol i geisio adennill mymryn o sefydlogrwydd. Yn y pen draw, dyna pam y gwelwyd cymaint o newid arweinwyr. Amser yn unig a ddengys pa fath o lywodraeth a ddaw yn sgil y newid mewn personél!

Ond wrth i ni wynebu corwyntoedd bywyd, newyddion da'r Beibl yw bod yna deyrnas sydd ddim yn gallu cael ei hysgwyd (Hebreaid 12:28). Teyrnas dragwyddol Dduw yw hon, ac nid trwy glyfrwch na daioni dynol y byddwn yn ei hennill; cawn ei derbyn trwy ras Duw wrth i ni ymddiried yn ein Harglwydd Iesu Grist.

Mae'r Beibl yn ein hatgoffa am y Deyrnas, ond hefyd yn rhoi gobaith i ni trwy bwysleisio pwy sy'n llywodraethu. Wrth wyllo'r newyddion dros yr wythnosau nesaf, ac wrth wynebu beth bynnag a ddaw i'n rhan, cofiwn y disgrifiad hyfryd hwn o'r Un nad oes diwedd ar gynnydd Ei lywodraeth: ⁶ *Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni, a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd. Fe'i gelwir, "Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn, Tad bythol, Tywysog heddychlon".* ⁷ *Ni bydd diwedd ar gynnydd ei lywodraeth, nac ar ei heddwch i orsedd Dafydd a'i frenhiniaeth, i'w sefydlu'n gadarn â barn a chyfiawnder, o hyn a hyd byth. Bydd sêl Arglwydd y Llaoedd yn gwneud hyn.* (Eiseia 9:6-7)

Rhodri

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Hydref 30^{ain}

- **Oedfa i'r Daith (Cefn Meiriadog, Llanfair a Llansannan) yng Nghefn Meiriadog** am 10:30 o dan arweiniad Mr Joseff Edwards. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **yn Llanefydd** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Hywel Meredydd. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd a'r Ysgol Sul yn Henllan am 10:30.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 y prynhawn o dan arweiniad y Parch. John Robinson.

Dydd Gwener, Tachwedd 4^{ydd}

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llanefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Tachwedd 6^{ed}

Oherwydd amrywiol resymau, bu'n rhaid ail-drefnu'r oedfaon mewn nifer o eglwysy'r Ofalaeth ar gyfer y Sul hwn. Felly, sylwch yn ofalus ar y manylion, os gwelwch yn dda:

- **Oedfa yn Groes (cynulleidfaoedd Groes a Henllan) am 9:30**, ac **yn Llansannan (cynulleidfaoedd Llansannan a Llanfair) am 11:00** o dan arweiniad y Parch Trefor Lewis. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan, ac Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa yn Groes.
- **Oedfa Gymun yng Nghefn Berain (cynulleidfaoedd Cefn Berain, Llanefydd, a Chefn Meiriadog) am 11:00** o dan arweiniad Rhodri pan fydd Ifan Jones (Cefn Berain) a Tudur Jones (Cefn Meiriadog) yn cael eu derbyn yn aelodau cyflawn yn eu heglwysi.
- **Oedfa i'r Daith (Saron a Nantglyn)** yn Saron am 10:00 o dan arweiniad Rhys Dafis.
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan** am 6:00 yr hwyr gyda Celfyn Williams yn arwain a Rhodri yn pregethu.

Dydd Mawrth, Tachwedd 8^{fed}

- **Paned a Sgwrs yn Festri Llansannan** am 1:30 y pwnn a gwaith crefft hefo Menna Thomas. Croeso cynnes i bawb.
- **Cyfarfod Gweddi 'Gwreiddiau'** am 7:00 yr hwyr ar Zoom. (I ymuno, ewch i dudalen flaen www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Cyfarfod Gweddi'.)

Dydd Iau, Tachwedd 10^{fed}

- **Hwyl Pwnn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala. Os nad ydych wedi cofrestru yn barod, rhwch eich enwau i Gwenno (07833 138515), os gwelwch yn dda.

Dydd Sul, Tachwedd 13^{eg}

- **Oedfa yn Llanefydd** am 9:30 ac **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones.
- **Bydd Ysgol Sul yn Henllan** am 10:00 ac **yn Llanefydd** am 10:30.
- **Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan** am 10:00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd gwasanaeth Sul y Cofio wrth y gofeb am 10:50.
- Bydd **Gwasanaeth Teuluol yng Nghefn Meiriadog** am 10:30 ac **Ysgol Sul** am 2:00.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

I ddod

- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Myfi yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd?' nos Lun, Tachwedd 14^{eg} am 7:00 yr hwyr o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu dealwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.
- **Ffair Nadolig** yng Nghapel Waengoleugoed ar Tachwedd 19^{eg} rhwng 10:30 ac 15:00 i godi arian i gynnal Gofal Dydd. Maent yn apelio am nwyddau newydd fyddai'n addas fel anrhegion Nadolig (i blant neu oedolion) ar gyfer eu stondin anrhegion newydd. Gellir gadael y nwyddau ym mhorth y capel neu gallant drefnu i nol yr eitemau o fan canolog. Croeso i bawb – bydd Sion Corn yno hefyd!
- **Cynhadledd Dydd Gweddi'r Byd** yng Nghapel y Groes, Wrecsam dydd Mawrth, Tachwedd 22^{ain} o 10:00 – 13:00. Diwrnod fydd hwn i baratoi a chael syniadau ar gyfer eich gwasanaeth lleol ym mis Mawrth.

Pecyn Dydd Gweddi'r Byd

Os ydych am i ni gasglu'r deunydd ar gyfer eich eglwys i gynnal gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn 2023, wnewch chi adael i Mair wybod a sicrhau eich bod wedi archebu'r deunydd gan Mrs Margaret Morgan erbyn **dydd Mawrth, Tachwedd 15fed**, os gwelwch yn dda? (Os nad ydych wedi derbyn y pecyn a'r ffurflen i archebu'r deunydd, plis cysylltwch â Mair.)

Gofal Dydd Waengoleugoed

Gofynnwyd i ni eich atgoffa bod Gofal Dydd yn rhoi gofal am ddim, gyda thrafnidiaeth drws i ddrws i unrhyw un o unrhyw oed sydd gyda salwch difrifol neu efallai yn gwella wedi cyfnod mewn ysbyty ayb. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau megis chiropodi, therapi celf, therapi cerdd a thriniaeth amgen am ddim i rai yn y gymuned. Cysylltwch â nhw ar helpugilydd@gmail.com os am ragor o wybodaeth.